


Annwyl Riant / Gwarchodwr,

Mae blwyddyn newydd o aelodaeth yr Urdd nawr ar agor. Rhaid bod yn aelod o'r Urdd er mwyn cymryd rhan yn y gweithgareddau maent yn cynnig. Fel ysgol, rydym wedi cael llawer o lwyddiant yn y gorffennol, a mawr hyderwn y gall y llwyddiant yma barhau eleni.

**Beth yw'r Urdd?**

Mae Urdd Gobaith Cymru yn Gorff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol â dros 55,000 o aelodau. Ers 1922, meant yn darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc fwynhau profiadau trwy gyfrwng y Gymraeg a fydd yn eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol yn eu cymunedau.

Bydd llu o weithgareddau a digwyddiadau i blant o flwyddyn 2 - 6 yn cael eu trefnu yn Ysgol Tan-y-lan, yn cynnwys gweithgareddau'n ymwneud ag Eisteddfod yr Urdd (naill ai ar y llwyfan neu gwaith cartref e.e. Celf a Chrefft) a chystadlaethau chwaraeon.

**Sut i ymaelodi plant?**

Gofynnwn i rieni gofrestri neu adnewyddu aelodaeth eu plant yn uniongyrchol drwy wefan yr Urdd www.urdd.cymru/ymuno

Mae aelodaeth yn £10 y plentyn neu £25 am aelodaeth teulu (tri neu fwy o blant). Bydd disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth ariannol yn gallu ymaelodi am £1. Mae gwybodaeth pellach am hyn ar y wefan.

Bydd pawb sy'n ymaelodi gyda'r Urdd erbyn 31 Hydref yn derbyn cod arbennig ddechrau Tachwedd i gael 20% i ffwrdd ar holl nwyddau'r Urdd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, yna cysylltwch a mi.
Diolch yn fawr
Mrs Palmer